# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**2015 dccc 2**

**RHAN 2**

GWELLA LLESIANT

*Mesur perfformiad tuag at gyrraedd y nodau*

VALID FROM 01/04/2016

**12 Adroddiadau blynyddol gan Weinidogion Cymru**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cyhoeddi, mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol, adroddiad ar y cynnydd a wnaed ganddynt at gyflawni eu hamcanion llesiant, a

(b) gosod copi o'r adroddiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Wrth baratoi adroddiad o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru adolygu eu hamcanion llesiant.

(3) Os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu, yn dilyn adolygiad o dan is-adran (2), nad yw un neu ragor o'u hamcanion llesiant yn briodol bellach, rhaid iddynt ddiwygio'r amcan neu'r amcanion perthnasol a chyhoeddi'r amcan neu'r amcanion diwygiedig cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

(4) Pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio un neu ragor o'u hamcanion o dan is-adran (3), rhaid i'r adroddiad gynnwys eglurhad am y diwygiad a'r rhesymau dros ei wneud.

(5) Rhaid i adroddiad o dan yr adran hon gael ei gyhoeddi a'i osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn cyfeirio ati.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/02/2016. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Adran 12. (See end of Document for details)*

### Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 12 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/02/2016. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Adran 12.